

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 18fed Orffennaf 2022.

Presennol– Janet Charlton, Chairperson, , Neil Pringle, Beth Thomas, Cyng Elizabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerk.

Ymddiheuriadau Mari E M Mathews, Anna Brown

Datgan diddordeb - Datganwyd diddordeb yng nghofnod [2.3] gan Cyng Beth Thomas, a ni chymerodd unrhyw ran tra bu'r mater yn cael sylw.

Yn absenoldeb y Cadeirydd ar Is Gadeirydd, cytunodd y Cyng Janet Charlton i gadeirio'r cyfarfod.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Fehefin 2022

Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Dywedodd y clerc nad oedd yr heddlu'n bresennol o ganlyniad ei bod yn fyr o staff. Cytunodd y Cyng E Roberts I drefnu cyfarfod gydag Arolygwr yr heddlu ynlgun a SCHG yn y gymuned.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair

Gan nodi 'r adroddiad gan Mott Macdonald ynglŷn â chreu pont droed, cytunodd y Cyng E Roberts I gysylltu gyda Bryn Shiland [Conwy CBC] I geisio arweiniad.

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Dywedodd y Cyng E Roberts bod y Gymdeithas Tai yn parhau i ddisgwyl am ganiatâd cynllunio.

[1.3] Caffi 'r Rheilffordd Fach

Nodwyd bod y Parc Cenedlaethol wedi anfon at y perchennog ynglŷn â cyflwr y safle.

[1.4] Materion Parcio Bro Gethin

Dywedodd y clerc nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan Cartrefi Conwy, dywedodd y Cyng E Roberts ei body n disgwyl gair oddiwrth yr AS Robin Millar.

[1.5] Llystyfiant Pont-y-Pair

Eglurodd y Cyng E Roberts y byddai'r gwaith yn debygol o ddechrau ar y 29ain Orffennaf

[1.6] Dyn mewn Fan

Dywedodd y clerc ei fod yn disgwyl gair gan Edward Jones APCE ynglŷn â dyddiad ar gyfer cyfarfod i drafod y mater.

[1.7] Atgyweirio/Pont-y-Soldiwr

Rhoddyd adroddiad gerbron gan y Cyng E Roberts ynglŷn â chyflwr y bont ac y byddai Cyngor BS Conwy yn ystyried cais i'w adnewyddu

[1.8] Holiadur Cymuned

Penderfynwyd gohirio'r mater hyd nes y cyfarfod nesaf.

[1.9] Clwb Peldroed Betws

Eglurodd y Cyng Neil Pringle fod y clwb yn mynd i ystyried ail wneud y llinellau ac i gysylltu gyda thrigolion Ffordd yr Orsaf ynglŷn ag ymestyn uchder y ffens

[2] Safle We'r Cyngor

Nodwyd bod y mater yn parhau

[2.1] Sgouts Gwydr

Penderfynwyd gwneud cyfraniad o £500.00 i fynychu Jamboree y Byd yn Ne Corea.

[2.2] Hen Eglwys Saint Mihangel

Eglurodd y clerc nad oes ateb wedi ei dderbyn gan y Parch Stuart Elliot ynglŷn â chyflwr y fynwent. Cytunodd y Cyng Janet Charlton I gael golwg.

Y Brif Agenda

[2.3] Materion Cynllunio

[a] Newid defnydd adeiladau allanol domestig i gaffi a man chwarae meddal cysylltiedig i blant. Ffermdy'r Royal Oak.

Penderfynwyd anfon y pryderon canlynol i APCE

[a] Mynediad [b]Rheolaeth Traffig [c] Trafferthion i drigolion cyfagos [d] Effaith ar y caffi presennol.

[2.4] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Mehefin 2022

[b] Dywedodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Rhaeadr Ewynnol yn ôl i'r arferol.

[c] Adroddiad yr archwiliwr mewnol. Nodwyd nad oedd unrhyw fater angen sylw.

[d] Gan nodi costau am gynnal cyfrifon gan fanc HSBC. Penderfynwyd cau'r cyfrifon canlynol ; Estate Account, Memorial Hall Account, Business Manager Account, a throsglwyddo'r arian i'r cyfrif arferol.

[2.5] Mynwent Erw Hedd

Y clerc i drefnu cyfarfod gyda Chyngor BS Conwy ar gyfer ystyried plannu coed ychwanegol yn y fynwent.

[2.6] Gŵyl Flodau Eglwys Saint Mihangel

Cytunodd y Cyng Janet Charlton drefnu blodau ar gyfer yr ŵyl.

[2.7] Gwasanaeth Sgip

Nodwyd y dyddiad nesaf ar gyfer y sgip 11eg Hydref 2022

Mari E M Mathews, Cadeirydd